



Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd  
Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020-2035

## **EB28: Papur Tystiolaeth ar Wastraff**

Hydref 2026

# Papur Cefndir Gwastraff Crynodeb Annhechnegol

## Cyflwyniad

Mae'r Papur Cefndir Gwastraff hwn yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi 2il Gynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Caerffili (2RLDP) 2020-2035. Mae'n nodi'r dystiolaeth sy'n sail i bolisiâu rheoli gwastraff y Cynllun ac yn ystyried polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, monitro gwastraff, seilwaith presennol a gofynion yn y dyfodol.

## Cyd-destun Strategol

Mae'r papur wedi'i lywio gan Tuag at Ddim Gwastraff, Beyond Recycling, Polisi Cynllunio Cymru, TAN 21, Cymru'r Dyfodol a Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu'r Cyngor. Gyda'i gilydd, mae'r dogfennau hyn yn hyrwyddo'r hierarchaeth wastraff sy'n rhoi blaenoriaeth i atal, aildefnyddio, ailgylchu ac adfer cyn gwaredu.

## Amcanion Allweddol Rheoli Gwastraff

Nod polisi Llywodraeth Cymru yw lleihau cynhyrchu gwastraff, cynyddu aildefnyddio ac ailgylchu, dileu tirlenwi yn raddol a chefnogi'r economi gylchol. Mae targedau allweddol yn cynnwys lleihau gwastraff, lleihau gwastraff bwyd ac anelu at economi sero net carbon erbyn 2050.

## Canfyddiadau Monitro Gwastraff Rhanbarthol

Mae Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff De-ddwyrain Cymru 2020 yn dangos bod y defnydd o gapasiti tirlenwi wedi bod yn is o lawer na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth ddargyfeirio gwastraff oddi wrth dirlenwi drwy ailgylchu a chyfleusterau adfer ynni. O ganlyniad, nid oes angen capasiti tirlenwi ychwanegol yn y rhanbarth.

## Perfformiad Gwastraff Sir Caerffili

Yn 2018/19, casglodd y Cyngor 104,290 tonnelli o wastraff. Cafodd 65.1% ei aildddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, gan ragori ar y targed o 64%. Dim ond 1,054 tonnelli a anfonwyd i dirlenwi. Mae gwastraff gweddilliol yn cael ei reoli drwy bartneriaeth Prosiect Gwyrdd, tra bo gwastraff organig yn cael ei brosesu yng nghyfleuster Bryn Compost, Gelligaer.

## Seilwaith Gwastraff Presennol

Mae'r Cyngor yn gweithredu chwe Chanolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn Aberbargoed, Penmaen, Full Moon, Trehir, Penallta a Rhymni. Mae safle Full Moon hefyd yn gweithredu fel Gorsaf Drosglwyddo Wastraff.

## Y Rhaglen Newid Gydweithredol

Mae adolygiadau a gynhaliwyd drwy Raglen Newid Gydweithredol WRAP Cymru wedi dangos bod angen moderneiddio'r seilwaith gwastraff presennol. Daeth yr adolygiadau hyn i'r casgliad nad yw'r orsaf drosglwyddo wastraff bresennol yn Full Moon yn darparu digon o gapasiti ar gyfer anghenion y dyfodol ac y dylid datblygu cyfleuster newydd pwrpasol.

## Gorsaf Drosglwyddo Wastraff a Ffefrir

Mae Parc Busnes Dyffryn, Ystrad Mynach wedi'i nodi fel y lleoliad a ffefrir ar gyfer Gorsaf Drosglwyddo Wastraff newydd. Cymeradwyodd y Cyngor brynu'r safle ym mis Hydref 2024 ac mae trafodaethau cyn ymgeisio ar y gweill.

## Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref

Daeth yr adolygiad i'r casgliad y byddai pedair canolfan yn ddigonol i wasanaethu'r Fwrdeistref Sirol. Nodwyd Penmaen a Rhymni fel y safleoedd mwyaf addas i'w cau oherwydd cyfyngiadau gweithredol, maint y safle a lefelau defnydd, yn amodol ar benderfyniadau yn y dyfodol drwy'r Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu.

# Goblygiadau Polisi Cynllunio

Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i'r 2RLDP ddarparu ar gyfer rhwydwaith amrywiol ac integredig o gyfleusterau rheoli gwastraff. Mae'r Cynllun yn cefnogi egwyddorion yr economi gylchol, ailddefnyddio, ailgylchu a datblygu cynaliadwy. Gellir lleoli llawer o gyfleusterau rheoli gwastraff modern mewn adeiladau ar safleoedd cyflogaeth priodol.

## Polisiau Arfaethedig

Mae Polisi WM1 yn hyrwyddo rheoli gwastraff cynaliadwy drwy gefnogi hierarchaeth wastraff Cymru ac egwyddorion yr economi gylchol. Mae Polisi WM2 yn nodi safleoedd cyflogaeth cynradd ac eilaidd fel lleoliadau sy'n addas mewn egwyddor ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff mewn adeiladau. Mae Polisi WM3 yn darparu meini prawf manwl ar gyfer asesu cynigion rheoli gwastraff newydd, gan gynnwys dangos angen, cydymffurfio â'r hierarchaeth wastraff, diogelu mwynderau a diogelu'r amgylchedd.

## Casgliadau ac Argymhellion Allweddol

- Nid oes angen capasiti tirlenwi ychwanegol yn Ne-ddwyrain Cymru.
- Dylid rhesymoli a moderneiddio'r rhwydwaith presennol o gyfleusterau gwastraff.
- Dylid datblygu Gorsaf Drosglwyddo Wastraff newydd ym Mharc Busnes Dyffryn.
- Dylid cefnogi cyfleusterau rheoli gwastraff mewn lleoliadau cyflogaeth priodol, yn ddarostyngedig i ystyriaethau cynllunio perthnasol.
- Dylai'r 2RLDP barhau i hyrwyddo'r economi gylchol, ailddefnyddio, ailgylchu a rheoli gwastraff yn gynaliadwy yn unol â pholisi cenedlaethol.